Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.12 Sicrhau bod gennych bolisi cronfeydd wrth gefn da

Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Dylid darllen y daflen wybodaeth hon ar y cyd â'r daflen wybodaeth o'r enw "*Cronfeydd wrth gefn*".

1. Cyflwyniad

Wrth gyfeirio at "gronfeydd wrth gefn" rydym yn cyfeirio at y rhan honno o arian digyfyngiad yr elusen sydd ar gael i'w wario ar unrhyw rai o ddibenion yr elusen. Mae hyn yn eithrio cronfeydd sydd â gwaddol parhaol a chronfeydd cyfyngedig, a hefyd cronfeydd incwm sydd wedi'u rhwymo mewn asedau sefydlog. Gellid ystyried bod cronfeydd â gwaddol gwariadwy a chronfeydd dynodedig hefyd wedi'u heithrio, ond penderfyniad yr ymddiriedolwyr yw hynny yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol.

Dylai pob elusen benderfynu lefel y cronfeydd wrth gefn mae arnynt ei hangen a dylid seilio hyn ar eu hamgylchiadau penodol eu hunain a'r risgiau, yr ansicrwydd, y pwysau ariannol, ac ati, maent yn eu hwynebu. Does dim dwy elusen yr un fath felly bydd gan bob elusen lefel wahanol o gronfeydd wrth gefn angenrheidiol.

2. Polisïau cronfeydd wrth gefn da

Dylai elusen nid yn unig fod â chronfeydd wrth gefn, ond dylai hefyd fod â pholisi cronfeydd wrth gefn priodol sy'n cael ei gofnodi a'i gynnwys bob blwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol. Dyma un o ofynion y SORP (*Statement of Recommended Practice*) y mae'n rhaid i bob elusen gydymffurfio ag ef.

Byddai gan bolisi cronfeydd wrth gefn da y nodweddion canlynol.

2.1 Eglurhad clir pam mae angen cronfeydd wrth gefn

Byddai hyn yn cynnwys sylwadau ar y risgiau a'r ansicrwydd mae'r elusen yn eu hwynebu. Byddai wedi'i lywio gan amcangyfrif o lefelau incwm a gwariant a dadansoddiad o anghenion, cyfleoedd, ymrwymiadau a chysylltiadau yn y dyfodol.

2.2 Datganiad ynglŷn â lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei hangen

Ar ôl ystyried y materion yn 2.1 uchod, mae angen i'r ymddiriedolwyr benderfynu lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei hangen. Gellid mynegi hyn fel ffigwr penodol (e.e. £100,000), ystod o ffigyrau (e.e. £80,000 i £120,000) neu mewn rhyw ffordd arall (e.e. swm cyfwerth â 4 mis o dreuliau gweithredu arferol).

2.3 Eglurhad o lefelau presennol y cronfeydd wrth gefn gan gynnwys sylw priodol ar gronfeydd dynodedig

Byddai hyn yn egluro, o'r ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol, y ffordd y mae'r elusen wedi cyfrifo ei chronfeydd wrth gefn a hefyd y rheswm dros neilltuo cronfeydd dynodedig.

2.4 Eglurhad o'r ffordd y mae'r elusen yn bwriadu symud o'i chronfeydd wrth gefn gwirioneddol i'w chronfeydd dymunol

Mewn byd delfrydol byddai'r cronfeydd wrth gefn gwirioneddol yn cyd-fynd â'r polisi. Os felly, dylid datgan hyn. Serch hynny, yn aml bydd y cronfeydd wrth gefn gwirioneddol naill ai'n llai neu'n fwy na lefel ddymunol y cronfeydd wrth gefn.

Os yw'r cronfeydd wrth gefn yn brin, dylid nodi'r ffordd y mae'r ymddiriedolwyr yn cynllunio eu cynyddu, e.e. drwy gadw arian dros ben arfaethedig am nifer o flynyddoedd.

Os yw'r cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r lefel ddelfrydol, yna rhaid i'r ymddiriedolwyr ddelio gyda hyn hefyd. Ni ddylai elusen fod mewn sefyllfa lle mae'n cadw cronfeydd incwm drwy'r adeg (eistedd ar arian parod) y dylid eu gwario i gyflawni ei hamcanion.

2.5 Eglurhad o'r cynlluniau i fonitro ac adolygu'r polisi

Fel arfer, gwneir hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

3. Polisïau cronfeydd wrth gefn gwael

Mae'r Comisiwn Elusennau yn annog mudiadau i beidio â gwneud y canlynol.

- **Dull y '*status quo*'**: Edrych ar lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn a chreu polisi i'w cyfiawnhau. Defnyddir y dull hwn yn aml os yw cronfeydd wrth gefn yn uchel.

- **Dull 'Armagedon'**: Bwrw y bydd y gwaethaf yn digwydd a chyfrifo'r cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i gau'r holl weithgareddau, dileu swyddi pob aelod o staff, setlo ymrwymiadau les, ac yn y blaen.

4 Enghraifft o gyfrifon enghreifftiol y Comisiwn Elusennau

Egluro pam mae eu hangen.	Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi archwilio anghenion yr elusen am gronfeydd wrth gefn yn sgil y prif risgiau i'r mudiad. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu polisi sy'n nodi y dylai'r cronfeydd digyfyngiad nad ydynt wedi'u rhwymo na'u buddsoddi mewn asedau sefydlog diriaethol a ddelir gan yr elusen fod rhwng 3 a 6 mis o wariant.
Egluro'r lefel sydd ei hangen.	£550,000 yw'r gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2009/10 ac felly £137,500 i £275,000 mewn cronfeydd cyffredinol yw'r targed. Mae angen y cronfeydd wrth gefn i ateb gofynion cyfalaf gweithio'r elusen ac mae'r Pwyllgor Rheoli yn hyderus y byddent, ar y lefel hon, yn gallu parhau â gweithgareddau presennol yr elusen pe bai yna ostyngiad sylweddol mewn cyllid.
Egluro'r lefel bresennol.	£56,792 yw lefel y cronfeydd incwm, ond mae £20,000 wedi'i neilltuo i brynu cyfarpar ar gyfer y prosiect hyfforddi ac mae £22,500 pellach yn ariannu cyfarpar swyddfa'r elusen. Mae lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i'r elusen, sef £14,292, felly gryn dipyn yn is na lefel y targed hwn.
Egluro'r ffordd o gyrraedd y lefel angenrheidiol.	Er mai'r strategaeth yw parhau i gynyddu cronfeydd wrth gefn drwy arian gweithredu dros ben arfaethedig, mae'r Pwyllgor Rheoli yn hollol ymwybodol ei bod yn annhebygol y gellir cyrraedd ystod y targed hwnnw am o leiaf pum mlynedd. Yn y tymor byr, mae'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried hefyd i ba raddau y gellid cwtogi gweithgareddau a gwariant presennol, pe bai amgylchiadau yn codi.
Cynlluniau i fonitro ac adolygu	*Heb ei gynnwys yn yr enghraifft hon – ond mae'n arfer da i egluro bod yr ymddiriedolwyr yn cadw'r polisi dan adolygiad.*

5. Arweiniad pellach

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Elusennau a chronfeydd wrth gefn (CC19)
Tell it like it is (RS13)
Charity Income Reserves (arweiniad gweithredol - OG43).

SORP Elusennau - http://charitysorp.org/

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth hon yn garedig gan Watts Gregory LLP: www.watts-gregory.co.uk, ffôn 02920 546600, ebost d.williams@watts-gregory.co.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart , Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig: *1068623*

Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk
Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:16/03/2015

Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk